Annwyl Syr neu Fadam,

A fyddech mor garedig ag ystyried y llythyr atodedig fel rhan o'ch ymgynghoriad, byddwn yn gwerthfawrogi cadarnhad o hyn os gwelwch yn dda.

Cofion, Louis

>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>. >>>>>>>>>>

Welsh Government Offices
Cathays Park
King Edward VII Avenue
Cardiff
CF10 3NQ

10 Medi 2024

**Llythyr agored ynghylch effaith y bwriad i gau Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru**

Mae Sefydliad Siartredig Gweithwyr Proffesiynol Llyfrgell a Gwybodaeth (CILIP) yn cynrychioli miloedd o weithwyr proffesiynol llyfrgell, gwybodaeth, gwybodaeth a data ledled y DU a thu hwnt. Gyda'n cefnogaeth ni, mae ein haelodau'n darparu buddion cyhoeddus trwy wasanaethau rhagorol ar draws pob sector gan gynnwys llyfrgelloedd cyhoeddus; y rhai mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion; ar draws y GIG; y tu mewn i lywodraethau a seneddau; ac mewn diwydiant. Mae ein fframwaith moesegol a'n Siarter Frenhinol yn ein hymrwymo i gynnal, hyrwyddo ac amddiffyn yr egwyddor o fynediad cyffredinol at wybodaeth ddibynadwy a chadw gwybodaeth.

Rydym yn ysgrifennu i fynegi ein pryder ynghylch y bwriad i gau Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, i nodi sut y bydd hyn yn effeithio ar gyfanrwydd a hygrededd Cyfoeth Naturiol Cymru ac ar wead ehangach gwybodaeth ac ymchwil arbenigol yn y DU.

Mae'r llyfrgell ei hun yn gartref i gasgliad unigryw ac ystorfa o wybodaeth o bwys rhyngwladol. Mae hyn yn llywio penderfyniadau nid yn unig Cyfoeth Naturiol Cymru ond hefyd Llywodraeth Cymru a'i weinidogion, awdurdodau lleol, a swyddogion.

Arbenigedd llyfrgellwyr proffesiynol sy'n galluogi'r casgliadau hyn i gael eu catalogio, eu cadw, eu dehongli, eu strwythuro, a sicrhau eu bod ar gael mewn ffordd sy'n gynaliadwy, yn atebol, ac yn gydnaws â galluogi staff Cyfoeth Naturiol Cymru, amgylcheddwyr, gweinidogion, ymchwilwyr, curaduron, a defnyddwyr lleyg i gael y budd mwyaf posibl ohonynt, yn bersonol ac ar-lein.

Fel sefydliad sy'n ystyried cau eich gwasanaeth llyfrgell a gwybodaeth, byddem yn eich annog yn gryf i ystyried y canlynol:

• Dros amser, daw llyfrgellydd proffesiynol neu bwnc-arbenigol nid yn unig yn arbenigwr yn y ddisgyblaeth bwnc, ond hefyd ar gymhwyso'r casgliad i'r ddisgyblaeth honno. Nid mewn gwybod y pwnc yn unig y mae eu harbenigrwydd, ond mewn mwyhau gwerth y defnydd wrth oleuo y pwnc hwnw i wahanol ddefnyddwyr ;

• Mae llyfrgellwyr arbenigol mewn sefyllfa unigryw i ddefnyddio'r offer technoleg diweddaraf i ddatgloi cyfleoedd newydd ar gyfer ymgysylltu â deunydd, mewn ffordd foesegol sy'n cydymffurfio â'r gyfraith;

• Am yr un rheswm, mae'n bwysig lleoli gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth o fewn eich sefydliad mewn ffordd sy'n rhyngweithio ag adrannau eraill yn ogystal â chynlluniau digidol a strategol, ac sy'n cynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, yn enwedig yng ngoleuni'r materion amgylcheddol brys sy'n effeithio ar Gymru.

• Llyfrgellwyr proffesiynol sydd yn y sefyllfa orau i weithredu fel 'pont' rhwng potensial eich casgliadau a chenhadaeth eich sefydliad. Rôl ein proffesiwn yw sicrhau bod newid yn llwyddiannus ac yn cael yr effaith fwyaf ar eich sefydliad a'ch cymuned.

Rydym yn cydnabod y bydd hwn yn gyfnod heriol ac anwadal i Cyfoeth Naturiol Cymru fel sefydliad, ond rydym yn eich annog yn gryf i ailystyried eich cynnig i gau'r gwasanaeth llyfrgell a gwybodaeth, er mwyn cyfyngu ar yr effaith negyddol ar staff proffesiynol i'r graddau mwyaf posibl, a chynnal mynediad at y casgliadau, yr adnoddau a'r arbenigedd tra byddwch yn gweithio drwy unrhyw ailstrwythuro.

Rydym yn parhau i fod ar gael ichi os byddai'n ddefnyddiol cyfarfod i drafod y pryderon hyn. Gobeithiwn y byddwch yn cadw mynediad at Wasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru fel ei fod yn parhau i chwarae rhan hanfodol mewn penderfyniadau am bolisïau amgylcheddol Cymru yn y dyfodol.

Cofion cynnes,

**Louis Coiffait-Gunn**
**CEO, CILIP – y gymdeithas llyfrgell a gwybodaeth**

**Jamie Finch**

**Cadeirydd, CILIP Cymru Wales**

CILIP Cymru Wales is CILIP in Wales. It's the leading voice for the information, knowledge management and library profession in Wales. Our goal is to put information and library skills and professional values at the heart of a democratic, equal and prosperous Welsh society. CILIP is a registered charity, no. 313014.